



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 Rhif 584 (Cy.58)

2008 No. 584 (W.58)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Gorchymyn Powys (Cymunedau)
2008**

**The Powys (Communities) Order
2008**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n cael ei wneud yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi eu heffaith i gynigion Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ("y Comisiwn"), a gyflwynodd adroddiad yng Ngorffennaf 2007 ar adolygiad o gymunedau a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Powys. Yn adroddiad y Comisiwn argymhellwyd bod newidiadau'n cael eu gwneud i ffiniau presennol cymunedau yn ardal Cyngor Sir Powys a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol, ac mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi eu heffaith i argymhellion y Comisiwn heb eu haddasu.

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972, gives effect to proposals of the Local Government Boundary Commission for Wales ("the Commission"), which reported in July 2007 on a review of communities conducted by Powys County Council. The Commission's report recommended changes to the existing boundaries of communities within the area of Powys County Council and consequential changes to electoral arrangements, and this Order gives effect to the Commission's recommendations without modification.

Effaith y Gorchymyn hwn yw bod newidiadau i nifer o ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol yn y trefniadau etholiadol. Ymhellach, mae cymunedau Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddsbarth Glyndwr) a Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddsbarth Sir Drefaldwyn) wedi'u huno ac yn ffurfio cymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant a gynrychiolir gan 11 o gynghorwyr cymuned. Mae darpariaeth drosiannol a chanlyniadol wedi'i gwneud mewn cysylltiad â'r cyngor cymuned newydd. Mae darpariaeth ganlyniadol wedi'i gwneud mewn cysylltiad ag adrannau etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin a Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Ffurfir adran etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin o gymunedau Llangedwyn a Llansilin a chymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant ac un cynghorydd sir fydd ganddi o hyd. Gelwir adran etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn Llanwddyn ac fe'i ffurfir o gymunedau Llangynog, Llanwddyn a Phen-y-bont-fawr ac un cynghorydd sir fydd ganddi o hyd.

The effect of this Order is that there are changes to a number of community areas and consequential changes in electoral arrangements. Further, the communities of Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Glyndwr) and Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Montgomeryshire) are amalgamated and constitute the new community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant which will be represented by 11 community councillors. Transitional and consequential provision is made in respect of the new community council. Consequential provision is made in respect of the electoral divisions of Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin and Llanrhaeadr-ym-Mochnant. The electoral division of Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin will comprise the communities of Llangedwyn and Llansilin and the new community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant and will continue to have one county councillor. The electoral division of Llanrhaeadr-ym-Mochnant is to be known as Llanwddyn and will comprise the communities of Llangynog, Llanwddyn and Pen-y-Bont-Fawr and will continue to have one county councillor.

Mae printiau o'r mapiau ffiniau A i N wedi'u hadneuo a gellir edrych arnynt yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir Powys, Llandrindod, Powys ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd (Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol).

Mae Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976, y cyfeirir atynt yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynghylch effaith gorchmynion megis y gorchymyn hwn ac ynghylch gweithredu'r gorchmynion hynny.

Prints of the boundary maps A to N are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Powys County Council, Llandrindod Wells, Powys and at the offices of the Welsh Assembly Government at Cathays Park, Cardiff (Local Government Policy Division).

The Local Government Area Changes Regulations 1976 referred to in article 2 of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provision about the effect and implementation of orders such as this.

2008 Rhif 584 (Cy.58)

2008 No. 584 (W.58)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Gorchymyn Powys (Cymunedau)
2008**

**The Powys (Communities) Order
2008**

Gwnaed 2 Mawrth 2008

Made 2 March 2008

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2) a (3)

*Coming into force in accordance with article
1(2) and (3)*

Gan fod Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, ac yntau wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1), adroddiad dyddiedig Gorffennaf 2007 ar adolygiad o gymunedau a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Powys, ynghyd â chynigion a luniwyd gan y Comisiwn arnynt;

The Local Government Boundary Commission for Wales, having submitted to the Welsh Ministers, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(1), a report dated July 2007 on a review of communities conducted by Powys County Council, together with the proposals formulated by the Commission thereon;

A chan fod Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hynny heb eu haddasu;

And the Welsh Ministers having decided to give effect to those proposals without modification;

A chan fod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru;

And more than six weeks having elapsed since those proposals were submitted to the Welsh Ministers;

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd bellach ynddynt i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 58(2) and 67(4) and (5) of the Local Government Act 1972 and now vested in them so far as exercisable in relation to Wales(2), make the following Order:

(1) 1972 p.70.

(2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent wedi'u breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(1) 1972 c.70.

(2) The powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now vested in the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (2006 c.32).

Enwi a Chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008.

(2) At unrhyw ddiben a ddisgrifir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar y diwrnod ar ôl diwrnod ei wneud.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2008, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "newydd" ("*new*"), o ran ardal llywodraeth leol neu adran etholiadol, yw'r ardal honno fel y'i sefydlir gan y Gorchymyn hwn;

ystyr "presennol" ("*existing*"), o ran ardal llywodraeth leol neu ardal etholiadol, yw'r ardal honno fel ag y mae hi yn union cyn y diwrnod penodedig;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(1);

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn golygu un o'r 14 o fapiau sydd wedi'u marcio "Mapiau Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008", sy'n dwyn y label priodol o "A" i "N" at ddibenion cyfeirio ac sydd wedi'u hadneuo'n unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

mae unrhyw gyfeiriad at adran etholiadol yn gyfeiriad at un o adrannau etholiadol sir Powys; ac

os dangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troetffordd, cwrs dwr neu nodwedd daearyddol tebyg, mae i'w drin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

Glyn Tarell ac Aberhonddu - newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

3. Mae'r rhan o gymuned Glyn Tarell a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap A—

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Aberhonddu;
- (b) yn rhan o ward Dewi Sant y Tu Mewn cymuned Aberhonddu; ac
- (c) yn rhan o adran etholiadol Dewi Sant y Tu Mewn.

Title and Commencement

1.—(1) The title of this Order is the Powys (Communities) Order 2008.

(2) For any purpose set out in regulation 4(1) of the Regulations, this Order comes into operation on the day after that on which it is made.

(3) For all other purposes, this Order comes into force on 1 April 2008, which is the appointed day for the purposes of the Regulations.

Interpretation

2. In this Order—

"existing" ("*presennol*"), in relation to a local government or electoral area, means that area as it exists immediately before the appointed day;

"new" ("*newydd*"), in relation to a local government or electoral area, means that area as established by this Order;

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976(1);

any reference to a map means one of the 14 maps marked "Maps of the Powys (Communities) Order 2008", duly labelled "A" to "N" for reference and deposited in accordance with regulation 5 of the Regulations;

any reference to an electoral division is a reference to an electoral division of the county of Powys; and

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature.

Glyn Tarell and Brecon - change in community areas and consequential changes to electoral arrangements

3. The part of the community of Glyn Tarell shown hatched on Map A—

- (a) is transferred to the community of Brecon;
- (b) forms part of the St. David Within ward of the community of Brecon; and
- (c) forms part of the electoral division of St. David Within.

(1) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol nad yw'r diwygiadau iddynt yn berthnasol i'r offeryn statudol hwn).

(1) S.I. 1976/246 (as amended by various statutory instruments which amendments are not relevant to this statutory instrument).

Cwm Grwyne a Chrucywel - newid mewn ardaloedd cymunedol

4. Mae'r rhan o gymuned Cwm Grwyne a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap B wedi'i throsglwyddo i gymuned Crucywel.

Llanfair-ym-Muallt a Duhonwy - newid mewn ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

5. Mae'r rhan o gymuned Llanfair-ym-Muallt a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap C—

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Duhonwy; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol Llanafan Fawr.

Llanigon a'r Gelli Gandryll - newid mewn ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

6. Mae'r rhan o gymuned Llanigon a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap D—

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned y Gelli Gandryll; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol y Gelli Gandryll.

Glyn Tarell a Llanfrynach - newid mewn ardaloedd cymunedol

7. Mae'r rhan o gymuned Glyn Tarell a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap E wedi'i throsglwyddo i gymuned Llanfrynach.

Ystradfellte a Thawe Uchaf - newid mewn ardaloedd cymunedol

8. Mae'r rhan o gymuned Ystradfellte a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap F wedi'i throsglwyddo i gymuned Tawe Uchaf.

Llanfair Caereinion a Chastell Caereinion - newid mewn ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

9. Mae'r rhan o gymuned Llanfair Caereinion a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap G—

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Castell Caereinion; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol Cegidfa.

Yr Ystog a Cheri - newid mewn ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

10. Mae'r rhan o gymuned yr Ystog a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap H —

Vale of Grwyney and Crickhowell - change in community areas

4. The part of the community of The Vale of Grwyney shown hatched on Map B is transferred to the community of Crickhowell.

Builth and Duhonw - change in community areas and consequential change to electoral arrangements

5. The part of the community of Builth shown hatched on Map C—

- (a) is transferred to the community of Duhonw; and
- (b) forms part of the electoral division of Llanafanfawr.

Llanigon and Hay - change in community areas and consequential change to electoral arrangements

6. The part of the community of Llanigon shown hatched on Map D—

- (a) is transferred to the community of Hay; and
- (b) forms part of the electoral division of Hay.

Glyn Tarell and Llanfrynach - change in community areas

7. The part of the community of Glyn Tarell shown hatched on Map E is transferred to the community of Llanfrynach.

Ystradfellte and Tawe-Uchaf - change in community areas

8. The part of the community of Ystradfellte shown hatched on Map F is transferred to the community of Tawe-Uchaf.

Llanfair Caereinion and Castle Caereinion - change in community areas and consequential change to electoral arrangements

9. The part of the community of Llanfair Caereinion shown hatched on Map G—

- (a) is transferred to the community of Castle Caereinion; and
- (b) forms part of the electoral division of Guilsfield.

Churchstoke and Kerry - change in community areas and consequential change to electoral arrangements

10. The part of the community of Churchstoke shown hatched on Map H—

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Ceri; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol Ceri.

Y Drenewydd a Llanllwchaearn - newid mewn ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

11. Mae'r rhan o gymuned y Drenewydd a Llanllwchaearn a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap I—

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Llandysul; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol Dolforwyn.

Llansanffraid a Llangedwyn - newid mewn ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

12. Mae'r rhan o gymuned Llansanffraid a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap J —

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Llangedwyn; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin.

Llangurig a Llanidloes - newid mewn ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

13. Mae'r rhan o gymuned Llangurig a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap K —

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Llanidloes; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol Llanidloes.

Yr Ystog a Threfaldwyn - newid mewn ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

14. Mae'r rhan o gymuned yr Ystog a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap L —

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Trefaldwyn; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol Trefaldwyn.

Trefyclo a Chwityn - newid mewn ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

15. Mae'r rhan o gymuned Trefyclo a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap M —

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Chwityn; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol Llangynllo.

- (a) is transferred to the community of Kerry; and
- (b) forms part of the electoral division of Kerry.

Newtown and Llanllwchaiarn - change in community areas and consequential change to electoral arrangements

11. The part of the community of Newtown and Llanllwchaiarn shown hatched on Map I—

- (a) is transferred to the community of Llandyssil; and
- (b) forms part of the electoral division of Dolforwyn.

Llansanffraid and Llangedwyn - change in community areas and consequential change to electoral arrangements

12. The part of the community of Llansanffraid shown hatched on Map J—

- (a) is transferred to the community of Llangedwyn; and
- (b) forms part of the electoral division of Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin.

Llangurig and Llanidloes - change in community areas and consequential change to electoral arrangements

13. The part of the community of Llangurig shown hatched on Map K—

- (a) is transferred to the community of Llanidloes; and
- (b) forms part of the electoral division of Llanidloes.

Churchstoke and Montgomery - change in community areas and consequential change to electoral arrangements

14. The part of the community of Churchstoke shown hatched on Map L —

- (a) is transferred to the community of Montgomery; and
- (b) forms part of the electoral division of Montgomery.

Knighton and Whitton - change in community areas and consequential change to electoral arrangements

15. The part of the community of Knighton shown hatched on Map M—

- (a) is transferred to the community of Whitton; and
- (b) forms part of the electoral division of Llangynllo.

Llanrhaeadr-ym-Mochnant - uno'r cymunedau presennol i greu cymuned newydd a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

16.—(1) Mae cymunedau presennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Glyndwr) a Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Sir Drefaldwyn) wedi'u huno ac yn ffurfio cymuned newydd a elwir Llanrhaeadr-ym-Mochnant, sef yr ardal a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap N.

(2) Mae cymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn rhan o adran etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin(1) ac un cynghorydd sir fydd ganddi o hyd.

(3) Gelwir adran etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant(2) yn Llanwddyn ac fe'i ffurfir o gymunedau Llangynog, Llanwddyn a Pen-y-bont-fawr ac un cynghorydd sir fydd ganddi o hyd.

Llanrhaeadr-ym-Mochnant - cynghorau cymuned

17.—(1) Mae cynghorau cymunedau presennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Glyndwr) a Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Sir Drefaldwyn) i'w diddymu.

(2) Bydd cyngor ar gyfer cymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

(3) Bydd unrhyw berson sydd yn union cyn y diwrnod penodedig mewn swydd fel cynghorydd i gymuned bresennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Glyndwr) neu gymuned bresennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Sir Drefaldwyn) yn gynghorydd, ar ac ar ôl y diwrnod penodedig, i gymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

(4) O'r pedwerydd diwrnod ar ôl etholiad cyffredin cynghorwyr yn 2008, un ar ddeg fydd nifer cynghorwyr cymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

(5) Mae cynghorwyr cymunedol i gymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant i'w hethol ar ddiwrnod etholiad cyffredin cynghorwyr yn 2008. Mae'r personau a etholir i gychwyn ar eu swydd ar y pedwerydd diwrnod ar ôl hynny ac i ymddeol ohoni ar y pedwerydd diwrnod ar ôl etholiad cyffredin cynghorwyr yn 2012.

(1) Mae adran etholiadol bresennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin wedi'i ffurfio o gymunedau Llangedwyn, Llansilin a chymuned bresennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Glyndwr).

(2) Mae adran etholiadol bresennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant wedi'i ffurfio o gymunedau Llangynog, Llanwddyn, Pen-y-bont-fawr a chymuned bresennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Sir Drefaldwyn).

Llanrhaeadr-ym-Mochnant - amalgamation of existing communities to create new community and consequential changes to electoral arrangements

16.—(1) The existing communities of Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Glyndwr) and Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Montgomeryshire) are amalgamated and constitute a new community to be known as Llanrhaeadr-ym-Mochnant being the area shown hatched on Map N.

(2) The new community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant forms part of the electoral division of Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin(1) which continues to have one county councillor.

(3) The electoral division of Llanrhaeadr-ym-Mochnant(2) is to be known as Llanwddyn comprising the communities of Llangynog, Llanwddyn and Pen-y-Bont-Fawr and continues to have one county councillor.

Llanrhaeadr-ym-Mochnant - community councils

17.—(1) The councils of the existing communities of Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Glyndwr) and Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Montgomeryshire) are to be dissolved.

(2) There is to be a council for the new community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

(3) Any person in office immediately before the appointed day as councillor for the existing community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Glyndwr) or the existing community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Montgomeryshire) is, on and after the appointed day, to be a councillor for the new community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

(4) As from the fourth day after the ordinary election of councillors in 2008 the number of councillors of the new community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant is to be eleven.

(5) Community councillors for the new community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant are to be elected on the day of the ordinary election of councillors in 2008. The persons elected are to come into office on the fourth day thereafter and retire on the fourth day after the ordinary election of councillors in 2012.

(1) The existing electoral division of Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin comprises the communities of Llangedwyn, Llansilin and the existing Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Glyndwr).

(2) The existing electoral division of Llanrhaeadr-ym-Mochnant comprises the communities of Llangynog, Llanwddyn, Pen-y-Bont Fawr and the existing Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Montgomeryshire).

(6) Mae cyfarfod blynyddol 2008 cyngor cymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant i'w gynnull gan y swyddog a benodwyd i'r perwyl hwnnw gan Gyngor Sir Powys.

Llanrhaeadr-ym-Mochnant - olynedd gweddilliol

18. O ran cyngorau cymuned presennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Glyndwr) a Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Sir Drefaldwyn) at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau sy'n cyfeirio at olynedd gweddilliol awdurdod a ddi-ddymwyd, mae cyngor cymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant drwy hyn wedi'i bennu'n olynedd gweddilliol.

Llyfrau cymunedol, etc.

19.—(1) Mae papurau penodedig cymunedau presennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Glyndwr) a Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Sir Drefaldwyn) i'w hadneuo drwy eu rhoi yng ngofal cyngor cymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr "papurau penodedig" ("*specified papers*") yw llyfrau, ysgrifau a phapurau cyhoeddus cymunedau presennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Glyndwr) a Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Sir Drefaldwyn) a'r holl ddogfennau y mae'r gyfraith yn cyfarwyddo eu cadw yn ychwanegol atynt.

Treuliau cychwynnol cyngor cymuned newydd, etc.

20.—(1) Yn yr erthygl hon—

ystyr "yr awdurdod bilio arfaethedig" ("*the prospective billing authority*") yw Cyngor Sir Powys;

ystyr "y cyngor cymuned newydd" ("*the new community council*") yw cyngor cymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant;

ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(1);

ystyr "y flwyddyn ariannol berthnasol" ("*the relevant financial year*") yw'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2008;

ystyr "Rheoliadau 1995" ("*the 1995 Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Praeseptau) (Cymru) 1995(2).

(6) The annual meeting for 2008 of the new community council of Llanrhaeadr-ym-Mochnant is to be convened by the officer appointed by the County Council of Powys for that purpose.

Llanrhaeadr-ym-Mochnant - residuary successor

18. In relation to the existing community councils of Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Glyndwr) and Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Montgomeryshire) for the purposes of any provision of the Regulations which refers to the residuary successor of a dissolved authority, the council of the new community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant is hereby specified as the residuary successor.

Community books, etc.

19.—(1) The specified papers of the existing communities of Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Glyndwr) and Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Montgomeryshire) are to be deposited in the custody of the council of the new community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

(2) In this article, "specified papers" ("*papurau penodedig*") means the public books, writings and papers of the existing communities of Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Glyndwr) and Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Montgomeryshire) and all documents directed by law to be kept thereunto.

Initial expenses of new community council, etc.

20.—(1) In this article—

"the 1992 Act" ("*Deddf 1992*") means the Local Government Finance Act 1992(1);

"the 1995 Regulations" ("*Rheoliadau 1995*") means the Local Authorities (Precepts) (Wales) Regulations 1995(2);

"the new community council" ("*y cyngor cymuned newydd*") means the new community council of Llanrhaeadr-ym-Mochnant;

"the prospective billing authority" ("*yr awdurdod bilio arfaethedig*") means Powys County Council;

"the relevant financial year" ("*y flwyddyn ariannol berthnasol*") means the financial year beginning on 1 April 2008.

(1) 1992 p.14.

(2) O.S. 1995/2562.

(1) 1992 c.14.

(2) S.I. 1995/2562.

(2) Mae adran 41 o Ddeddf 1992 (dyroddi praeseptau gan awdurdodau praeseptio lleol) yn cael effaith—

- (a) o ran y cyngor cymuned newydd, y darpar awdurdod bilio a'r flwyddyn ariannol berthnasol; a
- (b) parthed y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2008 ac sy'n dod i ben yn union cyn y diwrnod y dyroddir gan y gymuned newydd braesept am y flwyddyn ariannol berthnasol, drwy roi yn lle is-adran (3) yr is-adran ganlynol—

"(3) In making calculations in accordance with section 32 above (originally or by way of substitute) the billing authority shall take into account for the purposes of its estimate under section 32(2)(a) above an amount equal to that specified in article 20(6) of the Powys (Communities) Order 2008."

(3) O ran y cyngor cymuned newydd, y darpar awdurdod bilio a'r flwyddyn ariannol gyfredol —

- (a) mae adran 32 o Ddeddf 1992 (cyfrifo anghenion cyllideb gan awdurdodau bilio) yn cael effaith gan hepgor is-adran (6);
- (b) mae adran 41(4) o Ddeddf 1992 yn cael effaith drwy roi yn lle'r geiriau "March in the financial year preceding that for which it is issued" y geiriau "October in the financial year for which it is issued"; a
- (c) mae'r cyfeiriad yn adran 54(4) o Ddeddf 1992 (pŵer i ddynodi awdurdodau) at braesept a ragwelir gan awdurdod bilio yn unol â rheoliadau o dan adran 41 o Ddeddf 1992 i'w ddehongli fel cyfeiriad at y swm a bennir ym mharagraff (6) o'r erthygl hon.

(4) O ran y swm a gymerir i ystyriaeth at ddibenion adran 32(2)(a) o Ddeddf 1992 yn rhinwedd paragraff (2) uchod, bydd Pennod III o Ran I o Ddeddf 1992 (pennu'r dreth gyngor) yn cael effaith fel petai—

- (a) y swm yn eitem a grybwyllwyd yn adran 35(1) o Ddeddf 1992 (eitemau arbennig) a oedd yn ymwneud â'r gymuned newydd; a
- (b) ardal y darpar awdurdod bilio yn cynnwys y gymuned newydd.

(5) Rhaid i'r cyngor cymuned newydd wneud y cyfrifiadau sy'n ofynnol gan adran 50 o Ddeddf 1992 (cyfrifo anghenion cyllideb gan awdurdodau praeseptio lleol) am y flwyddyn ariannol berthnasol er mwyn sicrhau na fydd y swm a gaiff ei gyfrifo fel ei angen cyllideb am y flwyddyn honno yn fwy na'r swm a bennir ym mharagraff (6) o'r erthygl hon.

(6) Chwe mil dau gant ac un ar bymtheg o bunnoedd yw'r swm a bennir yn y paragraff hwn.

(2) Section 41 of the 1992 Act (issue of precepts by local precepting authorities) has effect—

- (a) in relation to the new community council, the prospective billing authority and the relevant financial year; and
- (b) as respects the period beginning on 1 April 2008 and ending immediately before the day on which there is issued by the new community a precept for the relevant financial year, with the substitution for subsection (3) of the following subsection—

"(3) In making calculations in accordance with section 32 above (originally or by way of substitute) the billing authority shall take into account for the purposes of its estimate under section 32(2)(a) above an amount equal to that specified in article 20(6) of the Powys (Communities) Order 2008."

(3) In relation to the new community council, the prospective billing authority and the relevant financial year—

- (a) section 32 of the 1992 Act (calculation of budget requirements by billing authorities) has effect with the omission of subsection (6);
- (b) section 41(4) of the 1992 Act has effect with the substitution for the words "March in the financial year preceding that for which it is issued" of the words "October in the financial year for which it is issued"; and
- (c) the reference in section 54(4) of the 1992 Act (power to designate authorities) to a precept anticipated by a billing authority in pursuance of regulations under section 41 of the 1992 Act is construed as a reference to the amount specified in paragraph (6) of this article.

(4) In relation to the amount taken into account for the purposes of section 32(2)(a) of the 1992 Act by virtue of paragraph (2) above, Chapter III of Part I of the 1992 Act (setting of council tax) is to have effect as if—

- (a) the amount were an item mentioned in section 35(1) of the 1992 Act (special items) which related to the new community; and
- (b) the area of the prospective billing authority included the new community.

(5) The new community council must make the calculations required by section 50 of the 1992 Act (calculation of budget requirement by local precepting authorities) for the relevant financial year so as to secure that the amount calculated as its budget requirement for that year does not exceed the amount specified in paragraph (6) of this article.

(6) The amount specified in this paragraph is six thousand two hundred and sixteen thousand pounds.

(7) O ran y cyngor cymuned newydd, y darpar awdurdod bilio a'r flwyddyn ariannol berthnasol, mae Rheoliadau 1995 yn cael effaith fel petai—

- (a) rheoliad 5 (gwybodaeth am amserlenni talu) wedi'i hepgor; a
- (b) yn is-baragraffau (1), (2) a (3) o baragraff 8 o Ran II o'r Atodlen (rheolau i benderfynu'r cyfnodau amser ar gyfer rhandaliadau) ym mhob achos yr ail "or" a'r geiriau sy'n dilyn hyd at ddiwedd pob is-baragraff,

wedi'u hepgor.

Deddfau, gorchmynion ac is-ddeddfau lleol

21. Mae cymunedau presennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Glyndwr) a Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn ddosbarth Sir Drefaldwyn) drwy hyn wedi'u pennu o ran rheoliad 41(4) o'r Rheoliadau (deddfau, gorchmynion ac is-ddeddfau lleol) a chymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant drwy hyn wedi'i phennu o ran y cymunedau presennol hynny.

(7) In relation to the new community council, the prospective billing authority and the relevant financial year, the 1995 Regulations have effect as if—

- (a) regulation 5 (information on schedules of payment); and
- (b) in sub-paragraphs (1), (2) and (3) of paragraph 8 of Part II of the Schedule (rules for determination of schedules in instalments) in each case the second "or" and the words following to the end of each sub-paragraph,

were omitted.

Local Acts, orders and byelaws

21. The existing communities of Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Glyndwr) and Llanrhaeadr-ym-Mochnant (in the former district of Montgomeryshire) are hereby specified in relation to regulation 41(4) of the Regulations (local acts, orders and byelaws) and the new community of Llanrhaeadr-ym-Mochnant is hereby specified in relation to those existing communities.

Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymddeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weiniidogion Cymru


2 Mawrth 2008

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

2 March 2008

Mapiau Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008

Map A Gorchymyn Powys
(Cymunedau) 2008




Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawthydil. (h) Hawffraint y Goron 2007. Cedwir pob hawl. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlynnu neu achos safon. Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Maps of the Powys (Communities) Order 2008


Map A of the Powys
(Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map B Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi, (h) Hawffraint y Goron 2007. Cedwir pob hawl. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlynn neu achos sifil. Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map B of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map C Gorchymyn Powys
(Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg
Ei Maswbyddi, (h) Hawffraint y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map C of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map D Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi, (h) Hawffrwynt y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
 Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffrwynt y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
 Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map D of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map E Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi, (h) Hawffraint y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map E of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map F Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. (h) Hawffraint y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlynn neu achos sifil.
Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map F of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map G Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi, (h) Hawffraint y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map G of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map H Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. (h) Hawffraint y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map H of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map I Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. (h) Hawffrwynt y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffrwynt y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map I of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map J Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrthidi, (h) Hawffraint y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlynn neu achos sifil.
Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map J of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map K Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrthdy, (h) Hawffraint y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlynnu neu achos sifil.
Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map K of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map L Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. (h) Hawffraint y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map L of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government


Map M Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. (h) Hawffraint y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Rhif y Drwydded: 100017916.

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map M of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.


Cartographics, Welsh Assembly Government

Map N Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008



Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. (h) Hawffrains y Goron 2007. Cedwir pob hawl.
 Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffrains y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
 Rhif y Drwydded: 100017916.

Map N of the Powys (Communities) Order 2008



This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2007. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916.

Cartographics, Welsh Assembly Government

©© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.